Gwasanaeth Tân ac Achub **De Cymru**

**South Wales** Fire and Rescue Service

**GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU**
**Y PENCADLYS, PARC BUSNES FOREST VIEW, LLANTRISANT**

**CYFARWYDDIAETH GWASANAETHAU CORFFORAETHOL**

**Swyddog Cyfathrebiadau Digidol**

**37 AWR YR WYTHNOS**
**CYFEIRNOD: 502945**

**GRADD 11**
**CYFLOG: £30,756 - £31,401 y flwyddyn**

Mae cyfle cyffrous wedi codi i benodi Swyddog Cyfathrebiadau Digidol o fewn yr Adran Perfformiad Gwasanaeth a Chyfathrebiadau a leolir ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cymeryd cyfrifoldeb am wefan, rhyngrwyd, llwyfanau cyfryngau cymdeithasol a chyfathrebiadau digidol y sefydliad yn ogystal â'r holl gynnwys, er mwyn hyrwyddo nodau'r ac amcanion corfforaethol y Gwasanaeth i gynulleidfaoedd priodol a sicrhau bod delwedd broffesiynol yn cael ei chynnal bod adeg. Disgwylir i ddeiliad y swydd weithio'n rymus a bydd yn ofynnol iddo/iddi weithio fin nos/penwythnosau ar adegau er mwyn cyflawni'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau a nodir o fewn y swydd-ddisgrifiad hwn yn effeithiol. Bydd y rôl hefyd yn cynnwys cyfrifoldeb i rheoli y Swyddog Cyfathrebiadau Digidol a'r Swyddog Datblygu Amlgyfryngau a Chymorth

Bydd prif ddyletswyddau'r swydd yn cynnwys:

- Datblygu a gweithredu strategaeth gyfathrebiadau digidol sy'n cynnwys amcanion tymor byr, tymor canol a hirdymor ar gyfer y Gwasanaeth a'i bresenoldeb digidol, gan sicrhau bod negeseuon yn gyson ar draws holl sianeli cyfathrebu digidol y Gwasanaeth yn ogystal â gwella presenoldeb y Gwasanaeth ar ei sianeli cyfredol a'i sianeli yn y dyfodol ill dau.

- Datblygu ac arwain dull cyfathrebu digidol a safonol integredig gan gynnwys cyfathrebiadau gwefan, rhyngrwyd, cyfryngau cymdeithasol a chyfathrebiadau digidol cyffredinol.

- Cynnal a datblygu gwefan, rhyngrwyd a llwyfannau digidol perthnasol eraill y Gwasanaeth, eu hymarferoldeb, yn ogystal â sicrhau y'i diweddarir a'i diogelir mewn perthynas â phrotocolau wal dân / diogelwch.

- Datblygu, golygu a chyhoeddi cynnwys gwefan, rhyngrwyd, cyfryngau cymdeithasol a holl gynnwys llwyfannau digidol arall.

- Cysylltu ag adrannau mewnol i goladu a chydgysylltu cynnwys ar gyfer defnydd allanol drwy law'r wefan, y cyfryngau cymdeithasol a llwyfannau digidol.

- Datblygu, adolygu a gweithredu cynlluniau cyfathrebiadau digidol ar gyfer gweithgarwch sy'n ymwneud ag ymgyrchoedd mewn cydweithrediad ag aelodau'r tîm Cyfryngau a Chyfathrebiadau i gynnal cysondeb brand a negeseuon.

- Darparu cydweithwyr ag arweiniad a chyngor arfer orau mewn perthynas â drafftio cynnwys digidol a darparu cymorth golygyddol lle bo'r gofyn i sicrhau y cynhelir canllawiau arddull a brand y Gwasanaeth.

Bydd y swydd heriol hon yn gofyn bod yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio'n gydweithredol â phersonél Gwasanaethau Tân ac Achub eraill ac felly mae'r gallu i deithio'n ofynnol.

Sefydliad sy'n ystyriol o deuluoedd ydym a gweithredir polisi gweithio'n hyblyg.

Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus gymryd fod yn destun gwiriad boddhaol gan Wasanaeth Datgelu'r Alban ac ymgymryd â Phrawf Cyffuriau ac Alcohol cyn y gwneir unrhyw benodiad.

Gellir lawr lwytho Ffurflen Gais, Swydd Ddisgrifiad a Manyleb Person o dudalen Gyrfaoedd ein gwefan ar www.decymru-tan.gov.uk

**Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw hanner dydd, ddydd Mawrth 19eg of Chwefror 2019.**

Dylid dychwelyd ceisiadau gorffenedig at: Y Tîm Recriwtio ac Asesu, Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Parc Busnes Forest View, Llantrisant CF72 8LX. Nodwch nad ydym yn derbyn ffurflenni CV.

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg ill dau a chroesawn gyfathrebiadau yn y naill iaith neu'r llall. Ni chaiff ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg eu trin yn llai ffafriol.

A fyddech cystal â nodi fod pob cyflog yn amodol ar werthusiad swydd.

**Mae GTADC yn credu fod gwir werth mewn cael gweithlu amrywiol ac rydym am fod yn rhagweithiol wrth annog ymgeiswyr o bob sector o'n cymuned i ymgeisio.**

POSITIVE ABOUT DISABLED PEOPLE